# Gohebiaeth gan y Comisiwn Etholiadol

## Bil Refferendwm Undeb Ewropeaidd - asesu cwestiwn refferendwm

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn cyflwyno Bil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Iau 28 Mai i wahodd sylwadau ar eiriad arfaethedig cwestiwn y refferendwm sy'n gynwysedig yn y Bil. Yn unol â'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (PPERA) mae gofyn i'r Comisiwn Etholiadol asesu a gwneud sylwadau ar eglurdeb unrhyw gwestiwn a gynhwysir mewn Bil ar gyfer refferendwm ledled y DU.

Yn ogystal ag edrych ar eiriad y cwestiwn ein hunain, byddwn yn casglu tystiolaeth i'n helpu gyda'r asesiad. Bydd hyn yn cynnwys:

- Cynnal ymchwil gyda phleidleiswyr o wahanol gefndiroedd ac o wahanol ardaloedd, trwy grwpiau ffocws a chyfweliadau un i un.
- Gofyn am gyngor gan arbenigwyr hygyrchedd ac iaith syml
- Siarad â grwpiau ymgyrchu posibl, grwpiau eraill â diddordeb ac unigolion, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol.

Er mwyn hysbysu ein hasesiad, rydym yn ceisio eich barn ar eiriad y cwestiwn refferendwm sydd wedi'i gynnwys yn y Bil, sydd fel a ganlyn (yn Saesneg):

**"Should the United Kingdom remain a member of the European Union?"**

Ac yn Gymraeg, i'w ddefnyddio ar y papur pleidleisio yng Nghymru:

**"A ddylai'r Deyrnas Unedig ddal i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd?"**

Rydym wedi cynhyrchu canllawiau cwestiwn refferendwm yr ydym yn ei ddefnyddio i asesu p'un a bod cwestiwn arfaethedig yn glir, syml a niwtral. Mae'r canllawiau hyn ar gael ar ein gwefan **yma** a byddai'n ddefnyddiol pe baech yn ystyried y cwestiwn yng nghyd-destun y canllawiau hyn wrth roi eich barn i ni.

Yn flaenorol, mae'r Comisiwn wedi asesu geiriad cwestiwn ar gyfer aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd oedd wedi'i gynnwys mewn Bil Aelod Preifat a gyflwynwyd yn 2013. Ym mis Hydref 2013 argymhellwyd gennym y dylid newid y geiriad arfaethedig i leihau'r risg o gamddeall neu amwysedd ynghylch statws aelodaeth presennol y DU o fewn yr UE. Darparwyd dau eiriad amgen i Senedd y DU ystyried:

- Yn Gymraeg: **"A ddylai'r Deyrnas Unedig ddal i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd?"** ac yn Saesneg **"Should the United Kingdom remain a member of the European Union?"**

  Yr ymatebion i'r rhain yn Gymraeg fyddai **"Dylai"** a "**Na ddylai"** ac yn Saesneg **"Yes"** a **"No"**

- Yn Gymraeg **“A ddylai'r Deyrnas Unedig bara i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu adael yr Undeb Ewropeaidd?”** ac yn Saesneg **“Should the United Kingdom remain a member of the European Union or leave the European Union?”**

  Yr ymatebion yn Gymraeg fyddai **“para yn aelod o’r Undeb Ewropeaidd”** a **“Gadael yr Undeb Ewropeaidd”** ac yn Saesneg fyddai **“Remain a member of the European Union”**a **“Leave the European Union”**

Fodd bynnag, fe wnaethom hefyd nodi yn Hydref 2013 nad oeddem wedi gallu profi'r ail o'r ddau gwestiwn amgen hyn yn llawn yn y cyfnod a oedd ar gael i ni cyn i ni adrodd. Felly fe wnaethom ni nodi pe bai'r Senedd yn diwygio'r cwestiwn yn y Bil i gynnwys y geiriad hwn, y byddai'r Comisiwn yn ymgymryd â gwaith pellach i wirio p'un a oedd y geiriad hwn yn codi unrhyw faterion newydd o ran eglurdeb.

Fodd bynnag, yn dilyn ymchwil pellach a gynhaliwyd gennym yn gynnar yn 2014, ar ôl i'r geiriad yn y Bil gael ei newid i "Should the United Kingdom remain a member of the European Union or leave the European Union?" yn Saesneg a "A ddylai'r Deyrnas Unedig bara i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu adael yr Undeb Ewropeaidd?" yn Gymraeg, roeddem yn fodlon bod geiriad y cwestiwn yn glir a syml i bleidleisio, a'i fod hefyd y geiriad mwyaf niwtral o'r ystod o ddewisiadau a ystyriwyd ac a brofwyd gennym.

Mae dolen i wybodaeth ynghylch ein hasesiadau ac argymhellion blaenorol ar gael ar ein gwefan **yma**.

Rydym yn cynnal ymchwil ac ymgynghoriad pellach nawr oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio ers ein hymchwil a'n hasesiad blaenorol, ac er mwyn sicrhau fod gennym ddealltwriaeth glir gan ymgyrchwyr ar effaith geiriad y cwestiwn ar eu gallu i ymgyrchu dros neu yn erbyn naill ganlyniad neu'r llall. Byddem yn croesawu yn benodol unrhyw sylwadau a barn ar oblygiadau i ymgyrchwyr ddefnyddio dewisiadau amgen i “Yes” a “No” fel ymatebion yn fersiwn Saesneg geiriad y cwestiwn. Yn yr un modd byddem yn croesawu barn ar olygiadau i ymgyrchwyr o ddefnyddio “Dylai” a “Na ddylai” neu unrhyw ymatebion amgen mewn fersiwn Gymraeg o’r cwestiwn.

Os hoffech roi eich barn ar eglurdeb y cwestiwn refferendwm a gynigir, gallwch anfon e-bost atom ReferendumQuestion@electoralcommission.org.uk. Er mwyn i ni allu ystyried eich barn fel rhan o'n proses asesu, anfonwch eich barn atom heb fod yn hwyrach na **dydd Gwener 19 Mehefin 2015.**

Os byddai'n well gennych roi eich barn i ni mewn cyfarfod, cysylltwch â ni erbyn **dydd Gwener 5 Mehefin 2015**. Byddwn yn ceisio cynnal unrhyw gyfarfod heb fod yn hwyrach na 19 Mehefin 2015. **Nodwch y gall y Comisiwn ddefnyddio detholiadau gan ymatebion a enwir yn yr adroddiad ar y cwestiwn, heblaw eich bod yn rhoi gwybod i ni y dymunwch i'ch sylwadau fod yn gyfrinachol.**

Byddwn yn adrodd ein barn ar y cwestiwn i Senedd y DU a byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau ar yr un pryd.

Yn gywir



Andrew Scallan
**Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Etholiadol**
**Director Electoral Administration**